## CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

**Cadeirydd:** Gerallt Jones

**Pwyllgor Blynyddol nos Lun Rhagfyr 7fed 2020**

Oherwydd y pandemig nid oedd yn bosib gwahodd aelodau o'r cyhoedd i'r Cyfarfod Blynyddol.

# Cofnodion

1. Croesawyd y Cynghorwyr i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd Gerallt Jones
2. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Owen a'r Cyng. Sirol Garffild Lewis.
3. **Cofnodion Blynyddol 2019-20:** Cynigwyd yn gywir gan Gari Jones gyda Edmund Rees yn eilio.
4. **Materion yn codi:** System Cyfrifon/rheolau – Cafwyd yn ddigonol a phenderfynwyd parhau a'r system bresennol.

   Polisi Cydraddoldeb:
   - i) Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rhwymedigaethau weithredu'n deg, yn gyfiawn ac yn unol â'r gyfraith.
   - ii) Yn benodol, ni fydd unrhyw aelod neu weithiwr posibl yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail rhyw, hil neu anabledd. Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas yn ymestyn i gysyniad o gyfle cyfartal i gynnwys gwahaniaethau ar sail credoau crefyddol neu wleidyddol neu gyfeiriadedd rhywiol.
   - iii) Mae'r polisi hwn yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.
   - iv) Bydd yn cael ei adolygu ac os oes angen, yn cael ei ddiwygio yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.
5. **Cwestiynau o'r llawr:** Dim.
6. **Mantolen Ariannol 2019-20** – Cafwyd yn gywir ac arwyddwyd.
   - i) Edrychwyd dros y rheolau cyllid a chael popeth mewn trefn.
   - ii) Mabwysiadwyd asesiad risg a'r rheolau sefydlog.
   - iii) Edrychodd y Cynghorwyr dros adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y system fewnol, popeth yn ei le.
   - iv) Trafodwyd polisi gweddillion yr holl arian sydd yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn a chael ei fod yn gywir, ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf sydd yn digwydd yn flynyddol.
7. **Ceisiadau am arian:**

   Dim
8. **Adroddiadau gan Gynrychiolwyr y Mudiadau:**

   Oherwydd y pandemig dim llawer i adrodd yn ôl
   - i) Edmund Rees (Elusen Ysbyty) sefyllfa ariannol yn weddol iachus.
   - ii) Gerallt Jones (Pwyllgor Ganolfan) ddim wedi cyfarfod
   - iii) Paul Weston (Foelas Cyf) wedi ymadael
   - iv) Edmund Rees (Un Llais Cymru) gweler adroddiad yng nghofnodion y Cyngor.
   - v) Gari Jones (Llywodraethwyr) dwr wedi llifo'i mewn ac achosi difrod. 43 o blant yn mynychu'r ysgol ar hun o bryd.
9. **Penodi Swyddogion:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| a) | Cadeirydd | - | Gerallt Jones |
| b) | Is-gadeirydd | - | Dewi Ll Evans |
| c) | Elusen Ysbyty A | - | Edmund Rees |
| ch) | Pwyllgor y Ganolfan | - | Gerallt Jones |
| d) | Foelas Cyf | - | Gwynfor H Roberts |
| dd) | Un Llais Cymru | - | Edmund Rees |
| e) | Llywodraethwyr | - | Gari B Jones |

10. **Unrhyw fater arall –** Dim

Arwyddwyd________________________________ Dyddiad_____10.05.2021_____

Cadeirydd